

Cylch Gorchwyl

Cylch Gorchwyl Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint
(a gymeradwyd yng nghyfarfod y Fforwm, 31 Mawrth 2003)

Teitl

1. Gelwir y Fforwm Mynediad Lleol yn Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint (FfMLISyFf).

Rôl y Fforwm, a'i Gyfrifoldebau

2. Swyddogaeth FfMLISyFf yw cynghori'r awdurdod lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ac eraill yn ôl y gofyn ynglyn â gwella mynediad cyhoeddus i dir agored yr ardal i ddibenion hamdden awyr agored a mwynhad cyffredinol, gan ddwyn i ystyriaeth rheolaeth tir a buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgol.
3. Bydd FfMLISyFf yn cyflawni hynny trwy roi cyngor ynglyn â'r hyn sydd o bwysigrwydd lleol arbennig, yn cynnwys yr hyn a ganlyn :
 - a) gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud â mynediad agored i gefn gwlad;
 - b) gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy; a
 - c) datblygu strategaethau hamdden a mynediad i dir agored sy'n diwallu anghenion pawb.
4. Nod FfMLISyFf yw:
 - a) gwella mynediad ar gyfer hamdden yng nghefn gwlad mewn dull adeiladol a chynhwysol;
 - b) parchu amgylchiadau lleol a charfannau amrywiol tra'n gweithredu yn ôl canllawiau cenedlaethol;
 - c) cynghori ar faterion yn ymwneud ag egwyddorion ac arfer da;
 - ch) ysgogi trafodaethau adeiladol, a cheisio cytundeb pan fo hynny'n bosibl; a
 - d) pan nad oes cytundeb, egluro beth yw'r gwahanol safbwyntiau ac awgrymu sut y gellir eu datrys.

Aelodaeth

5. Aelodau'r Fforwm fydd:-

- a) Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedi'u hethol yn unol â Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 (Rheoliadau FfMLISyFf);
- b) (yn amodol ar Rheoliad 5(1) Rheoliadau FfMLISyFf) 13 aelod arall, yn cynnwys canran gytbwys o :-
 - i) ddefnyddwyr cefn gwlad ar gyfer hamdden
 - ii) tirlfeddianwyr a thrigolion, yn ogystal â buddiannau eraill perthnasol.

6. Bydd yr aelodaeth yn:

- a) gytbwys ei naws er mwyn sicrhau nad yw'r Fforwm dan ddylanwad un carfan;
- b) cynrychioli trawstoriad o fuddiannau'r ardal; ac
- c) yn byw neu'n gweithio yn yr ardal, neu'n gyfarwydd iawn â hi.

7. Disgwylir i'r aelodau:

- a) lynu at y rhannau o'r rheoliadau, Deddf CGaHT, a'r Cylch Gorchwl sy'n ymwneud â FfMLlau;
- b) ymroi i gyflawni amcanion FfMLISyFf drwy gydweithio'n adeiladol â'u cyd-aelodau;
- c) roi o'u hamser i fynychu cyfarfodydd ac i gyfathrebu'n adeiladol y tu allan i gyfarfodydd;
- ch) meddu ar brofiad digonol o ran mynediad i gefn gwlad lleol, i fedru cyfrannu'n ddeallus ac adeiladol i'r broses o wella mynediad; a
- d) medru gweithio gydag ystod eang o garfannau yn y maes.

Gweinyddiaeth y Fforwm

Ysgrifenyddiaeth y Fforwm

8. Bydd yr awdurdod sy'n penodi'r Fforwm yn penodi Ysgrifennydd ar gyfer FfMLISyFf, a'i g/waith fydd:-

- a) cynorthwyo Cadeirydd y Fforwm;

- b) sicrhau bod y Fforwm wedi ei drefnu a'i redeg yn unol â'r rheoliadau, Deddf CGaHT, a'r Cylch Gorchwyl hwn;
- c) rheoli adnoddau sy'n benodol ar gyfer gwaith y Fforwm;
- ch) trefnu a hybu cyfarfodydd, yn cynnwys dosbarthu papurau a gwybodaeth i aelodau'r Fforwm a'r cyhoedd;
- d) paratoi cofnodion yn dilyn cyfarfodydd y Fforwm.

Cyfarfodydd

- 9. Cynhelir cyfarfodydd y Fforwm o leiaf dwy waith y flwyddyn, ac yn amlach na hynny yn ôl y gofyn, fel a gytunir gan FfMLISyFf.
- 10. Y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd fydd yn pennu'r Agenda ar gyfer y cyfarfodydd, ond bydd rhwydd hant i'r aelodau gynnig eitemau i'w trafod.
- 11. Hysbysir y cyfarfodydd ymlaen llaw, a bydd y cofnodion yn cael eu hargraffu.
- 12. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd sylwedyddion/cynghorwyr i'r cyfarfodydd pan fo hynny'n briodol o ran eitemau unigol yr agenda.
- 13. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a gaiff y sylwedyddion/cynghorwyr gyfrannu i'r cyfarfod.
- 14. Caniateir i CCGC, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r awdurdod sy'n penodi'r Fforwm gael un sylwedydd yr un.
- 15. Sefydlir pwyllgorau gan FfMLISyFf, gyda chytundeb y Cadeirydd.
- 16. Cadeirydd ac aelodau FfMLISyFf fydd yn pennu cadeiryddiaeth, aelodaeth a chylch gorchwyl y pwyllgorau.
- 17. Bydd holl gyfarfodydd FfMLISyFf yn rai cyhoeddus. Fodd bynnag, gall y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod bennu, yn sgil cais gan un neu fwy o'r aelodau, y dylid gwahardd y cyhoedd pan drafodir rhai eitemau, am resymau'n ymwneud â phreifatrwydd personol neu gyfrinachedd masnachol.